WILLIAMS, JOHN (1745/6 - 1818), clerigwr ac athro

Enw: John Williams
Dyddiad geni: 1745/6
Dyddiad marw: 1818
Priod: Jane Williams (née Rogers)
Plentyn: Letitia Maria Davies (née Williams)
Plentyn: David Williams
Plentyn: John Williams
Rhiant: Dafydd William
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr ac athro
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd yng ngwanwyn 1745/6, mab hynaf David Williams Swyddffynnon, Sir Aberteifi (gof wrth ei alwedigaeth, ac un o gynghorwyr cynnar y Methodistiaid). Brawd iddo oedd Evan Williams 1749 - 1835.

Bu'n ddisgybl i Edward Richard yn Ystrad Meurig, ac yn 1765 aeth yn athro ar ysgol a gynhelid yng nghapel Woodstock, plwyf Treamlod, Sir Benfro. Yn nechrau 1766 aeth yn athro i Aberteifi, ac ordeiniwyd ef yn ddiacon gan yr esgob Moss o Dyddewi, 26 Rhagfyr 1768. Cafodd urddau offeiriad 19 Awst 1770; yn Ionawr 1771 aeth i Ross yn Swydd Henffordd yn gurad ac yn athro. Bu yno hyd Hydref 1776, pryd y torrodd ei iechyd, ond dychwelodd i'w hen gynefin a throes ar wella. Ar ôl marw Edward Richard yn 1777, penodwyd John Williams yn athro ar ei hen ysgol yn ei le, 19 Awst, a dechreuodd ar ei waith yn Medi. Bu yno hyd ddiwedd ei oes, 20 Mawrth 1818, a chladdwyd ef ym mynwent Ystrad Meurig.

Yn ystod ei dymor maith yn brifathro Ystrad Meurig llwyddodd i osod safonau ysgolheictod uchel ger bron ei ddisgyblion; derbyniwyd llawer ohonynt ar gyfer urddau sanctaidd heb unrhyw baratoad ond a gawsent yn Ystrad Meurig. Daeth nifer ohonynt yn enwog ym mywyd yr Eglwys (gweler y rhestr yn D. G. Osborne-Jones, *Edward Richard of Ystrad Meurig*, 60-2). Priododd â Jane, merch Lewis Rogers (siryf sir Aberteifi yn 1753), a bu iddynt dri mab ac un ferch, Letitia Maria a fu'n briod â David Davies'.

Ar ôl mynd i Ystrad Meurig, bu John Willliams yn gurad yn Lledrod ac yn Llanafan; yn Ebrill, 1793, cafodd reithoraeth Llanfair Orllwyn; yn 1795, guradiaeth barhaus Blaenporth; ym Mehefin 1799, guradiaeth Ystrad Meurig; ym Mai, 1804, ficeriaeth Nantmel ger Rhaeadr Gwy, a'r un pryd ganoniaeth yng Ngholeg Crist yn Aberhonddu. Adwaenid ef fel ' Yr Hen Syr,' a rhwng 1810 a 1815 cododd adeilad newydd ar gyfer yr ysgol.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Benjamin Williams (Gwynionydd), *Enwogion Ceredigion* (1869)

D. G. Osborne-Jones, op. cit.

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

NLW MS 13916

Cofrestri esgobol Tyddewi

Cymru (O.M.E.), iv, 45, 127; vi, 124

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 14657944

Wikidata: Q19367438

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu